

---

**Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C**  
16 Hydref 2014, S4C, Llanisien, Caerdydd

**Cyfarfod Rhif 380**

---

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Aled Eirug	(Aelod o'r Awdurdod)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
	Rheon Tomos	(Aelod o'r Awdurdod)
Hugh Evans	(Darpar Aelod o'r Awdurdod)	
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Garffild Lloyd Lewis	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)

1. **Croeso a Datganiadau diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol*

2. **Cofnodion cyfarfod 379** (a gynhaliwyd ar 18.09.14)

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 379.

3. **Materion yn Codi**

Cyfeiriwyd at strategaeth hyfforddiant S4C a holwyd beth yw'r sefyllfa bresennol o ran gweithredu'r strategaeth a chydweithio gyda Llywodraeth Cymru. Esboniodd IHJ eu bod yn dal i ddisgwyl gwybodaeth derfynol oddi wrth y Llywodraeth parthed pryd y byddant yn gweithredu eu strategaeth. Bydd IHJ yn cyflwyno diweddariad ar weithredu'r strategaeth a thrafodaethau S4C gyda Llywodraeth Cymru.

Nodwyd y bydd angen parhau i ystyried strategaeth S4C ar gyfer hyfforddiant o fewn y diwydiant wrth baratoi ac ystyried cynlluniau ariannol hirdymor S4C.

### 3.1 **System ddi-bapur Huddle**

Esboniwyd fod swyddogion yr adran TG yn y broses o gyflwyno system Huddle, a gobeithir y bydd yn weithredol ar gyfer papurau'r Awdurdod ym mis Tachwedd. Bydd canllawiau a hyfforddiant yn cael eu darparu ar gyfer yr Aelodau. Bwriedir darparu copïau papur ac electroneg am gyfnod cyn dirwyn copïau papur o ddogfennau'r Awdurdod i ben.

### 3.2 **Cofnod Cyhoeddus**

Cyflwynwyd cofnod o gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi ar gyfer ei gyhoeddi ar wefan S4C, a nodwyd fod gwaith wedi ei wneud ar baratoi cofnod o gyfarfodydd y blynyddoedd diweddar yn dilyn fformat tebyg. Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnod a'r fformat ar gyfer ei gyhoeddi.

### 3.3 **Fformat adroddiad y Wifren**

Esboniodd GLL fod mynegai wedi ei chynnwys ar flaen yr adroddiad er mwyn hwyluso defnydd yr adroddiad. Mae'r gwaith o ddatblygu fformat yr adroddiad yn parhau gyda'r bwriad o gyflwyno'r wybodaeth mewn modd sy'n amlygu pynciau poblogaidd.

## 4. **Adroddiad y Cadeirydd**

### 4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

Esboniodd ei fod wedi trafod yr Adroddiad Interim arfaethedig gydag Elan Closs Stephens a bod yr Ymddiriedolaeth wedi nodi nad oeddynt am dderbyn adroddiad ysgrifenedig ym mis Tachwedd. Nodwyd fod yr Awdurdod wedi cyfarfod gyda'r Ymddiriedolaeth ym mis Mai ac wedi rhoi cyflwyniad manwl bryd hynny ac wedi cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer ystyriaeth yr Ymddiriedolaeth ers hynny, ac felly y byddai'n gynamserol i gyflwyno adroddiad sylweddol mor fuan, yn enwedig gan fod y darlun yn anghyflawn yng nghanol blwyddyn.

Nodwyd nad yw cyflwyno adroddiad interim yn un o ofynion y Cytundeb Gweithredu ond bod adroddiad wedi ei gyflwyno ym mis Tachwedd y llynedd er mwyn cyflwyno gwaith S4C i'r Ymddiriedolaeth yn fuan ar ôl i'r trefniadau newydd ddod i rym.

Awgrymwyd gan yr Ymddiriedolaeth y byddai'n ddigonol i'r Ymddiriedolwraig dros Gymru gyflwyno diweddariad ar lafar i gyfarfod yr Ymddiriedolaeth ym mis Tachwedd, gyda'r Ysgrifennydd i fynychu er gwybodaeth.

Nodwyd mai cyfarfod fis Tachwedd fydd cyfarfod busnes cyntaf Cadeirydd newydd yr Ymddiriedolaeth, Rhona Fairhead. Roedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu ati i'w llongyfarch ac roedd yn awyddus i gael cyfle iddynt gyfarfod yn anffurfiol yn fuan.

#### 4.2 Rheolau Sefydlog Awdurdod S4C

Cyflwynodd PW fersiwn ddiwygiedig o ail ran y Rheolau Sefydlog, sef y ddogfen sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r Awdurdod. Esboniwyd bod ystyriaeth bellach wedi ei roi i ffurf y ddogfen yn dilyn y cyfarfod diwethaf a bod swyddogion wedi ceisio llunio dogfen a oedd yn rhannu'r cyfrifoldebau yn dri chategori - sef cyfrifoldebau y mae'r Awdurdod yn neilltuo iddo'i hun yn llwyr, dyletswyddau sydd wedi eu dirprwyo'n llwyr i swyddogion S4C a thrydydd categori o faterion sydd yn cael eu gweithredu o ddydd i ddydd gan swyddogion ond lle y gall fod yn briodol i'r Awdurdod ymwneud ar adegau penodol.

Yn dilyn ystyried ymarferoldeb y categorïau penderfynwyd canolbwyntio ar y dyletswyddau sydd wedi eu neilltuo'n llwyr i'r Awdurdod, gan nodi yng nghyflwyniad y ddogfen fod cyfrifoldebau yn ymwneud â darparu gwasanaethau S4C wedi eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion. Awgrymwyd bod y trydydd categori o gyfrifoldebau yn faterion y dylid eu hystyried yn rheolaidd wrth i faterion newydd neu ddadleuol godi a bod perthynas y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn allweddol o ran trafod materion o'r fath.

##### **Eitem 3.1 – materion wedi eu neilltuo**

**[Crynodeb:** Trafododd yr Aelodau ystyr "arwyddocaol" mewn perthynas â chymeradwyo amrywiannau yn y gyllideb. Penderfynwyd y bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn ystyried opsiynau ar gyfer y geiriad i gyflwyno i'r Awdurdod.]

Awgrymwyd y dylid cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff eraill yn y ddogfen gan nodi mai ar lefel strategol y dylai'r Awdurdod ymwneud gyda phartneriaethau. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys pennawd yn ymdrin â materion masnachol S4C.

**[Crynodeb:** Yng ngoleuni cyfeiriad at God Ymddygiad penderfynwyd y dylid nodi mai dyletswydd yr Awdurdod yw 'mabwysiadu a gweithredu' cod Swyddfa'r Cabinet.]

Awgrymwyd cynnwys cyfeiriad at Bolisi a Chynllun Iaith S4C ac addasu'r cyfeiriad presennol at bolisi iaith i fod yn gyfeiriad at Ganllawiau Iaith Cynnwys S4C.

Penderfynwyd y dylid ymgorffori'r argymhellion uchod yn y ddogfen ac i'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd gyflwyno dogfen ddiwygiedig i'r Awdurdod ym mis Tachwedd.

#### 5. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y

materion canlynol.

### 5.1 Prosiect Cymru DNA Wales

Lansiwyd y prosiect ar 24 Medi, a chafwyd ymateb cadarnhaol iawn gan westeion yn y lansiad a'r cyfryngau. Roedd IHJ yn falch fod y prosiect eisoes wedi cynyddu proffil S4C yn y wasg. Esboniwyd bod bwriad i ddatblygu'r prosiect dros gyfnod o dair blynedd, gyda nifer o raglenni a chyfresi yn deillio o'r prosiect, gyda'r rhaglen gyntaf yn cael ei darlledu ar Ddydd Gŵyl Dewi yn 2015.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phris y profion ac awgrymwyd y gallai'r gost uchel fod yn rhwystr i lawer rhag cymryd rhan yn y prosiect. Esboniwyd bod swyddogion yn ymwybodol o bryderon am bris y profion a bod cynlluniau ar y gweill i geisio noddwyr ar gyfer y profion mewn gwahanol ardaloedd o Gymru.

[**Crynodeb:** Trafodwyd elfennau Masnachol y prosiect ac opsiynau posib yn y dyfodol.]

Cyfeiriwyd at sylwadau oedd wedi eu gwneud parthed dulliau cwmni Scotland's DNA o gynnal y profion a nodwyd fod S4C yn ymwybodol o drafodaethau rhwng academyddion parthed dilysrwydd a phwrpas mathau gwahanol o brofion DNA.

### 5.2 Cynnwys Ar-lein

Esboniodd IHJ ei fod yn awyddus i barhau i ddatblygu strategaeth S4C ar gyfer cynnwys ar-lein. Y bwriad gwreiddiol oedd i gomisiynwyr gymryd cyfrifoldeb dros gomisiynu cynnwys ar gyfer y teledu a llwyfannau digidol, ond bellach mae wedi penderfynu addasu cyfrifoldebau HM i fod yn olygydd cynnwys ar-lein.

Roedd swyddogion wedi cynnal trafodaethau gyda TAC er mwyn cynnwys gofynion cynnwys ar gyfer platfformau digidol o fewn y cytundebau comisiynu, ac roedd cynrychiolwyr TAC wedi ymateb yn gadarnhaol i'r syniad. Bwriedir treialu cynllun cynnwys digidol, gan gynnwys ystyriaethau hyrwyddo am gyfnod o flwyddyn.

### 5.3 Ffigyrau gwylio

[**Crynodeb:** Trafodwyd ffigyrau gwylio'r gwasanaeth a gwasanaeth BARB yn gyffredinol. Nodwyd pwysigrwydd sicrhau dull o fesur sy'n ymgorffori gwylio ar y teledu ac ar lwyfannau eraill.]

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r drafodaeth a nododd y byddai'n sicrhau cyfle priodol yn y dyfodol er mwyn ystyried y mater a'r opsiynau ymhellach.

#### 5.4 **Cytundeb Fframwaith Adleoli rhwng S4C a PDDS**

Nodwyd y bydd y Cytundeb Fframwaith rhwng S4C a PDDS ar gyfer creu Canolfan S4C Yr Egin yn cael ei arwyddo ar 20 Hydref yng Nghaerfyrddin.

#### 5.5 **Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y Bwrdd Strategol**

Cyflwynwyd drafft o gylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Strategol fydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer ei ystyriaeth yn ei gyfarfod nesaf yn ogystal â chopi o gylch gorchwyl presennol y Grŵp Gweithredol.

Cyfeiriwyd at swydd newydd y Cyfarwyddwr Adleoli a Phrosiectau a nododd ECS ei bod yn credu ei fod yn bwysig sicrhau darpariaethau er mwyn i'r cyfarwyddwr fynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd er mwyn sicrhau dealltwriaeth o anghenion S4C a bod anghenion S4C yn ganolog i waith y prosiectau adleoli a chydleoli. Cadarnhaodd IHJ y byddai GLL yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd Strategol yn rheolaidd ac y byddai'n ystyried darpariaethau'r Cylch Gorchwyl er mwyn sicrhau fod hyn yn glir yn y ddogfen.

Cyfeiriwyd at newidiadau diweddar a darpar newidiadau ym mherchnogaeth cwmnïau yn y sector gynhyrchu ym Mhrydain a holwyd a oedd swyddogion yn ystyried effeithiau posibl newidiadau o fewn y sector ar fusnes S4C. Esboniodd IHJ fod swyddogion yn monitro datblygiadau o fewn y sector yn gyson a hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda chynrychiolwyr y sector a'r cwmnïau cynhyrchu.

### 6. **Adroddiad Dadansoddi**

**[Crynodeb:** Cyflwynwyd yr adroddiad dadansoddi yn ei ffurf newydd ar gyfer y cyfnod Ebrill - Medi 2014 a thrafodwyd yr amrywiadau a ddisgwylir ar draws y flwyddyn. Holwyd am wybodaeth S4C am y rheini sy'n dewis peidio gwylio S4C ac esboniwyd bod S4C yn cynnal ymchwil o'r fath. Trafodwyd patrwm cyrhaeddiad y Gogledd dros y tair blynedd diwethaf. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd llwyddiant uchelfannau'r amserlen ond nodwyd hefyd pwysigrwydd sicrhau arlwy beunyddiol o safon.]

### 7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ansoddol ar gyfer cyfnod Ch1 a Ch2 a'i gynlluniau ar gyfer ceisio cynyddu cyrhaeddiad y gwasanaeth drwy barhau i ddatblygu'r amserlen a chynnig cynnwys amrywiol o fewn parthau penodol (zones).

Nodwyd yr angen i gadw patrymau gwylio amrywiol mewn cof: sef, gwylio yn fyw; recordio a gwylio ar ddiwrnod y darllediad; recordio a gwylio dros gyfnod; a gwylio ar-lein. Serch y cynnydd yn y lleill, gwylio amserlen linear yn fyw yw'r mwyaf poblogaidd o hyd.

Esboniwyd mai cyfrifoldeb yr Awdurdod yw ystyried perfformiad y gwasanaeth a chyflwyno ei asesiad, gan gynnwys i Ymddiriedolaeth y BBC, yn yr Adroddiad Blynyddol a dogfennau eraill. Nodwyd potensial y gynulleidfa tu allan i Gymru a welwyd, er enghraifft, adeg y Sioe Frenhinol.]

Diolchodd y Cadeirydd i DRh, CE a'r Tîm Dadansoddi am baratoi a chyflwyno'r adroddiad. Nododd fod nifer o bynciau pwysig wedi eu hadnabod yn ystod y drafodaeth ac y byddai'n sicrhau cyfleoedd i'w hystyried dros y misoedd nesaf.

## 8. Adroddiad Cwynion a Gwifren Gwylwyr

8.1 Cyflwynwyd adroddiad y Wifren a chyfeiriwyd at nifer o sylwadau penodol.

Awgrymwyd bod angen i'r Awdurdod ystyried sut i bwysoli sylwadau'r Wifren o ran asesu yn wrthrychol ymateb y gynulleidfa i'r ddarpariaeth, gan gofio hefyd am farn rheini sy'n gwyllo S4C ond sydd ddim yn cysylltu gyda'r Wifren neu'n mynegi barn ar gyfryngau cymdeithasol a'r gynulleidfa botensial sydd ddim yn gwyllo S4C yn rheolaidd.

8.2 [**Crynodeb:** Cyflwynwyd yr adroddiad cwynion.]

## 9. Adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol

[**Crynodeb:** Cyflwynodd CB adroddiad llafar o gyfarfod y Bwrdd Masnachol.]

Nodwyd y bydd tymor JD fel aelod a chyfarwyddwr ar y Bwrdd Masnachol yn dod i ben ym mis Tachwedd ac y bydd Hugh Evans yn ymuno gyda'r Bwrdd bryd hynny. Diolchodd CB i JD am ei gyfraniad pwysig i waith y Bwrdd dros nifer o flynyddoedd fel cadeirydd a chyfarwyddwr.

## 10. Unrhyw fater arall

[**Crynodeb:** Trafodwyd fformat a phwrpas y nosweithiau gwylwyr.]

Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf GLL yn ei swydd bresennol a diolchodd y Cadeirydd ac IHJ iddo am ei wasanaeth i S4C, gan nodi eu bod yn edrych ymlaen at gydweithio gydag o ac at ei gyfraniad i waith S4C yn y swydd newydd.

## 11. Datblygiadau Digidol

[**Crynodeb:** Cafwyd cyflwyniad gan HM ar ddatblygiadau S4C yn y maes digidol. Cyfeiriodd at gynllun casglu data defnyddwyr S4C; ap a phorth newydd ar gyfer gwyllo cynnwys S4C ar-lein; a chynlluniau i gynnwys hysbysebion yn narpariaeth S4C ar y we.]

## 12. Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Awdurdod ar ddydd Iau 13 Tachwedd yng Nghaerdydd